# Agenda - Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: 26 Chwefror 2018

Amser: 14.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Alun Davidson**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddMADY@cynulliad.cymru

---

**Rhag-gyfarfod preifat (13.45-14.00)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(14.00)

## 2 Cydraddoldeb a Gadael yr Undeb Ewropeaidd: sesiwn dystiolaeth 1

(14.00-14.45) (Tudalennau 1 - 13)

Nicola Williams, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru

Gideon Calder, Ymddiriedolaeth Cydraddoldeb

Koldo Casla, Just Fair

George Wilson, Liberty

**Egwyl (14.45-14.50)**

## 3 Cydraddoldeb a Gadael yr Undeb Ewropeaidd: sesiwn dystiolaeth 2

(14.50-15.35)

Dr Rachel Minto, Prifysgol Caerdydd

Dr Panos Kapotas, Prifysgol Plymouth

Yr Athro Simon Hoffman, Prifysgol Abertawe

**Egwyl (15.35-15.40)**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 4 Cydraddoldeb a Gadael yr Undeb Ewropeaidd: sesiwn dystiolaeth 3

(15.40-16.25)

Catherine Fookes, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod

Rhian Davies, Anabledd Cymru

Andrew White, Stonewall

Uzo Iwobi, Cyngor Hil Cymru

## 5 Papur(au) i'w nodi

(16.25)

**5.1 Papur i'w nodi 1 - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol at Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) - 16 Chwefror 2018**

(Tudalennau 14 - 16)

**5.2 Papur i'w nodi 2 - Llythyr gan y Gweinidog Tai ac Adfywio ynghylch argymhellion adroddiad Cyfnod 1 ar y Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) - 21 Chwefror 2018**

(Tudalennau 17 - 19)

**5.3 Papur i'w nodi 3 - Llythyr gan y Gweinidog Tai ac Adfywio at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol argymhellion adroddiad Cyfnod 1 ar y Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) - 21 Chwefror 2018**

(Tudalennau 20 - 25)

**5.4 Papur i'w nodi 4 - Llythyr gan y Gweinidog Tai ac Adfywio at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch argymhellion yr adroddiad goblygiadau ar y Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) - 21 Chwefror 2018**

(Tudalennau 26 - 27)

**5.5 Papur i'w nodi 5 - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ynghylch 'Sut y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer**

(Tudalennau 28 - 30)

**6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod heddiw**

(16.30)

**7 Cydraddoldeb a Gadael yr Undeb Ewropeaidd: trafod y dystiolaeth**

(16.30-16.45)

**8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Masnachl – trafod yr adroddiad drafft**

(16.45-17.30) (Tudalennau 31 - 48)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

16 Chwefror 2018

Annwyl Alun,

**Bil yr UE (Ymadael)**

Isod, nodwn ein hymateb i'r materion a godwyd gennych yn eich llythyr at y Llywydd dyddiedig 16 Ionawr 2018. Yn gryno, croesawn y gwelliannau ond nodwn yr effaith gymharol fach a gânt o'u cymharu â'r egwyddorion cyfansoddiadol sy'n parhau i fod yn fater cynhennus. Mewn geiriau eraill, ni chredwn y bydd y consesiynau cymharol fach hyn yn ddigon i sicrhau cydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â'r Bil. Rydym hefyd yn cwestiynu pam nad oedd llawer o'r gwelliannau arfaethedig wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin.

**Gwelliannau cyfnod Pwyllgor - craffu ar reoliadau**

Rydym yn ymateb i'r cwestiwn ynghylch pa weithdrefnau craffu ddylai fod yn berthnasol i reoliadau mewn meysydd datganoledig yn [ein hadroddiad].

**Gwelliant Cymal 10 - gofyniad i ymgynghori**

Rydym yn croesawu cadarnhad y bydd dyletswydd Gweinidogion Cymru i gael cydsyniad Llywodraeth y DU yn newid i ddyletswydd i ymgynghori â Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, nodwn y gwahaniaeth sylweddol sy'n parhau rhwng y pwerau a roddir i Weinidogion y DU a'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru o dan y Bil, gan gynnwys mewn meysydd datganoledig. Mae'r gwahaniaeth hwnnw'n amlygu un o'r nifer o ffyrdd y mae'r Bil yn methu â pharchu datganoli.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

**Cymal 10 - pŵer i ddiwygio deddfwriaeth uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd**

Fel rhan o'n gwaith craffu cyffredinol ar offerynnau statudol, rydym yn nodi'n rheolaidd lle mae offeryn statudol yn gysylltiedig mewn rhyw ffordd â Rheoliad yr UE, mae'r Bil yn gosod terfynau ar yr hyn y gall y Cynulliad a Gweinidogion Cymru ei wneud mewn perthynas â'r Rheoliad yr UE, hyd yn oed os yw'r Rheoliad yr UE yn ymdrin â maes datganoledig megis bwyd, dŵr, amaethyddiaeth, pysgodfeydd a'r amgylchedd.

Rydym yn croesawu unrhyw gynnydd mewn pwerau mewn perthynas â Rheoliadau yr UE o'r fath a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae cynnydd o'r fath yn dal i ddibynnu ar gytundeb ynghylch fframweithiau cyffredin. Byddem yn croesawu diweddariad gan Lywodraeth y DU ynghylch ei syniadau diweddaraf ynghylch fframweithiau cyffredin a'r cynnydd o ran y trafodaethau â Llywodraeth Cymru o gwmpas fframweithiau cyffredin.

**Cymal 7**

Unwaith eto, croesawn y gwelliant i bwerau cymal 7 (a'i effaith ddilynol ar y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru o dan Atodlen 2). Fodd bynnag, nodwn eto fod hyn yn ymddangos yn gonsesiwn bach yng nghyd-destun y pwerau gwneud rheoliadau a gynhwysir yn y Bil.

**Hawl i herio yn seiliedig ar egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE**

Rydym yn croesawu y bydd yr heriau hynny sy'n seiliedig ar egwyddorion cyffredinol (megis diffyg gwahaniaethu, cymesuredd a hawl plant i gael eu diogelu) yn cael eu caniatáu am dri mis ar ôl gadael. Fodd bynnag, nodwn na fydd Deddfau Senedd y DU yn agored i'w herio yn ystod y ffenestr dri mis honno, ond bydd Deddfau'r Cynulliad Cenedlaethol (a Deddfau Senedd yr Alban a Deddfau Cynulliad Gogledd Iwerddon) yn agored i'w herio.

Mae'n anffodus mai sefyllfa ddiofyn Llywodraeth y DU yw dibynnu ar sofraniaeth Senedd y DU; nid yw'r dull hwnnw bob amser yn arwain at ddosbarthu pŵer deddfwriaethol ar draws y Deyrnas Unedig mewn modd teg a chytbwys. Fel y nodwn ym mharagraffau 17 a 30 ein hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil:

"Mae datganoli wedi newid cyfansoddiad y DU yn sylfaenol. Er bod cydnabyddiaeth yn gyffredinol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon fod cyfansoddiad y DU wedi newid o fod yn fodel Llundain-ganolog, nid yw bob amser yn glir bod Llywodraeth y DU yn cydnabod y newid hwnnw yn yr un modd.

Ymddengys fod y Bil, yn ei fwriad i adfywio goruchafiaeth Senedd y DU, yn gwneud hynny ar draul datganoli."

Byddwn yn hapus i drafod y llythyr hwn a'r adroddiad sy'n cyd-fynd ag ef gyda chi pe byddai hynny'n ddefnyddiol.

Yr wyf yn copïo'r llythyr hwn at y Llywydd, y Prif Weinidog, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a Chadeirydd Pwyllgor Dethol Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin.

Yn gywir



**Mick Antoniw AC**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Minister for Housing and Regeneration**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA - L/RE/0076/18

David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

21 Chwefror 2018

Annwyl David

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol am ei waith craffu ar Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 o'r broses ddeddfwriaethol.  Rwyf wedi nodi ymatebion i'r chwe argymhelliad a wnaed yn adroddiad craffu Cyfnod 1 y Pwyllgor ar y Bil isod.

1) *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.*

Rwy'n croesawu'r argymhelliad hwn a chefnogaeth y Pwyllgor i egwyddorion cyffredinol y Bil.

2) *Yn sgil y negeseuon anghyson a gafwyd ynglŷn â statws cynghorwyr lleol fel aelodau annibynnol ar Fyrddau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau ei safbwynt yn derfynol yn ei hymateb i'r adroddiad hwn.*

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn a byddaf yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor maes o law pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

3) *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Bil yn cael ei ddiwygio i sicrhau bod methiant i gydymffurfio â'r Fframwaith Rheoleiddiol, a'r safonau perfformiad cysylltiedig, yn cael ei gydnabod yn glir ar wyneb y Bil fel methiant i gydymffurfio â gofyniad a osodwyd o dan ddeddfiad.*

Rwyf wedi nodi sylwadau'r Pwyllgor. Er eglurder, nid yw'r term "Fframwaith Rheoleiddiol" ynddo'i hun yn ymddangos mewn deddfwriaeth. Mae'r gofynion cyfreithiol y mae'n rhaid i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig eu bodloni wedi'u cynnwys yn y safonau perfformiad a gyhoeddwyd o dan adran 33A o Ddeddf Tai 1996. Mae'r rhain yn rhan ganolog o'r Fframwaith Rheoleiddiol, sydd hefyd yn amlinellu'r broses ar gyfer llunio Dyfarniadau Reoleiddiol.

Mae Adran 33A eisoes yn glir bod yn rhaid i safonau perfformiad gael eu bodloni gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, ac felly nid oes amheuaeth eu bod yn ofynion "a osodwyd o dan ddeddfiad". Felly, rwy'n fodlon nad oes angen rhagor o eglurhad yn y Bil gan y gallai hynny fod yn niweidiol i statws gofynion eraill a osodir o dan ddeddfiad.

Lle mae effaith deddfwriaeth yn glir, nid oes angen cynnwys geiriau ychwanegol o eglurhad, a gall gwneud hynny gael effaith niweidiol anfwriadol o ran dehongli darpariaethau eraill sydd heb eiriau tebyg o eglurhad. Fodd bynnag, rwyf wedi gofyn i swyddogion adolygu'r Nodiadau Esboniadol er mwyn ystyried a fyddai o gymorth cynnwys cyfeiriad ychwanegol at y mater.

4) *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno gwelliannau i gryfhau rôl tenantiaid ar Fyrddau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gan nodi proses ffurfiol ar gyfer cyfranogiad tenantiaid cyn y gwneir newidiadau cyfansoddiadol a/neu gyfuniadau penodol.*

Mae rhoi lle canolog i denantiaid wrth reoleiddio yn un o brif egwyddorion y Fframwaith Rheoleiddiol. Nid yw'r Bil hwn yn gwneud dim i newid hyn. Ar hyn o bryd, nodir disgwyliadau o ran ymgynghori â thenantiaid a'r angen i Fyrddau ystyried barn tenantiaid yn y fframwaith a'r canllawiau rheoleiddiol. Gan dybio y daw'r Bil yn Ddeddf, y bwriad yw diweddaru'r canllawiau a'u cyhoeddi fel canllawiau statudol ac os na ddilynir unrhyw ganllawiau o'r fath, gellid adlewyrchu hyn yn y dyfarniad rheoleiddiol ac ystyried camau gorfodi rheoleiddiol.

Yn fy marn i mae'r disgwyliadau rheoleiddiol sy'n ymwneud ag ymgynghori â thenantiaid a gwrando ar eu barn yn hollol sylfaenol ac mae'r goblygiadau rheoleiddiol posibl i unrhyw Fwrdd sydd ddim yn cymryd y cyfrifoldebau hynny o ddifrif yn rhoi sicrwydd i denantiaid bod eu buddiannau'n cael eu diogelu.

O ran rôl tenantiaid ar Fyrddau, nid yw'r Bil yn gwanhau rôl aelodau Bwrdd a allai fod yn denantiaid, ac nid yw'n newid y ffaith mai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n penderfynu ar aelodau'r Bwrdd a hefyd yn penderfynu ar nifer aelodau'r Bwrdd sy'n denantiaid – nid Llywodraeth Cymru.

Er y bydd unrhyw ganllawiau statudol diwygiedig yn destun ymgynghoriad, mae fy swyddogion wedi paratoi canllawiau drafft mewn perthynas â newidiadau cyfansoddiadol o ganlyniad i uno. Os bydd o gymorth, gallaf rannu'r enghraifft hon â'r Pwyllgor yn gyfrinachol gan na fyddem yn ymgynghori ar y canllawiau tan ddiwedd taith y Bil, i esbonio'r disgwyliadau o ran ymgynghori a gwrando ar denantiaid cyn gwneud penderfyniadau.

5) *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno gwelliant i sicrhau ei bod yn eglur bod y pwerau i wneud rheoliadau o dan adran 18 yn darparu'r pŵer i wneud diwygiadau canlyniadol yn unig.*

Mae'n glir o'r dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor, ac fel yr amlinellir yn yr adroddiad, bod peth ansicrwydd o ran union gwmpas a diben y pwerau yn adran 18.

Nid yw adran 18 yn darparu pŵer i wneud diwygiadau pellach er mwyn ailddosbarthu. Mae ei gwmpas wedi'i gyfyngu i ganiatáu Gweinidogion Cymru sicrhau bod y ddeddf bresennol yn parhau i weithio'n effeithiol yng ngoleuni'r newidiadau penodol a wnaed gan y Bil. Bydd angen i unrhyw ddiwygiadau a wneir gan ddefnyddio'r pŵer fod â chysylltiad agos â'r newidiadau penodol a wnaed gan y Bil hwn.

Fodd bynnag, rwyf wedi derbyn yr argymhelliad hwn ac wedi gofyn i swyddogion ddatblygu gwelliant i'r Bil, gyda'r bwriad o ddynodi cwmpas y pŵer yn gliriach. Rwy'n nodi bod argymhelliad gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol mewn perthynas â'r pŵer hwn.

6) *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn gwneud gwaith craffu ar ôl y broses ddeddfu os daw'r Bil yn Ddeddf er mwyn sicrhau yn benodol bod hawliau tenantiaid yn cael eu diogelu ac nad yw Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gwaredu tir ac asedau mewn modd na ragwelir gan Lywodraeth Cymru.*

Argymhelliad ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol yw hwn, ond byddwn yn croesawu'r cyfle i Lywodraeth Cymru fod yn rhan o unrhyw waith craffu ar ôl y broses ddeddfu fel bo'n briodol, a gallaf gadarnhau y bydd ein trefn reoleiddio barhaus yn cynnwys diogelu hawliau tenantiaid yno gystal ag unrhyw ganlyniadau anfwriadol eraill.

Rwy'n mawr obeithio bod y llythyr hwn o gymorth o ran amlinellu fy ymateb i adroddiad y Pwyllgor. Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Cyllid ynghylch eu hadroddiadau Cyfnod 1, ac yn anfon copi o'r llythyrau at Gadeiryddion y tri Phwyllgor.

Rwy'n edrych ymlaen at barhau i weithio â'r Aelodau wrth i'r Bil fynd ar ei hynt drwy'r Cynulliad.

Yn gywir



**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration

**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Minister for Housing and Regeneration**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf / Ein cyf

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

21 Chwefror 2018

Annwyl Mick,

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am graffu ar Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 y broses ddeddfwriaethol. Rwyf wedi nodi ymatebion i'r deg argymhelliad a wnaed yn adroddiad craffu Cyfnod 1 y Pwyllgor ar y Bil isod.

1) *Rydym yn argymell bod y Gweinidog, yn ystod dadl Cyfnod 1, yn cyfiawnhau'r rhesymau dros gyflwyno Bil sy'n diwygio deddfwriaeth bresennol y DU yn hytrach na Bil cydgrynhoi, annibynnol.*

Derbyniaf yr argymhelliad hwn ac rwy'n falch o ailadrodd ac ychwanegu at y pwyntiau a wneuthum yn fy araith agoriadol yn y ddadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil, ynghylch y rhesymau pam na wnaethom gyflwyno Bil i gydgrynhoi deddfwriaeth yn y maes hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Materion Deddfwriaethol am ei ddiddordeb parhaus mewn cydgrynhoi'r gyfraith ddatganoledig, a'i gefnogaeth i hynny.

Rydym yn ymwybodol iawn o fanteision cydgrynhoi cyfraith ddatganoledig Cymru, gan wneud y gyfraith honno'n haws i'w chanfod ac yn haws ei deall, a chynyddu'r gyfraith ddwyieithog mewn meysydd datganoledig. Roedd ein hymateb i argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn adroddiad y Comisiwn ar Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru yn glir ynghylch manteision cydgrynhoi.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fodd bynnag, rwy'n siŵr bod y Pwyllgor yn gwerthfawrogi ei bod yn debygol y bydd angen parhaus am Filiau i newid y gyfraith at ddibenion penodol ac, er mai ein nod hirdymor yw cydgrynhoi cyfraith ddatganoledig Cymru, nid yw hyn yn golygu y gallwn ymrwymo i gydgrynhoi'r gyfraith mewn maes penodol bob tro y mae angen inni wneud newidiadau i'r gyfraith honno.

Y rheswm am hyn yw y bydd angen ystyried yr angen i gydgrynhoi fesul Bil unigol bob tro. Mae hyn yn golygu ystyried yr adnoddau sydd ar gael, ac ai dyma'r amser cywir (yng ngoleuni ffactorau megis newidiadau eraill sy'n digwydd ym maes y gyfraith) i gydgrynhoi.

Pe baem wedi ceisio cydgrynhoi'r gyfraith gyfan sy'n ymwneud â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fel rhan o'r Bil hwn, yn ogystal ag arwain at broblem o ran adnoddau, byddai perygl na fyddai'r broses gydgrynhoi wedi ei chwblhau mewn pryd i osgoi canlyniadau ailddosbarthu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gan yr ONS. O ystyried arwyddocâd y canlyniadau hynny, yn fy marn i, byddai cymryd y risg honno wedi bod yn gamgymeriad.

Fel y dangosodd ymateb Llywodraeth Cymru i Gomisiwn y Gyfraith, mae cydgrynhoi yn dasg fawr y mae angen adnoddau sylweddol ar ei chyfer.  Gwn fod y Pwyllgor yn gwerthfawrogi'n llwyr nad mater syml o gopïo'r ddeddfwriaeth bresennol a'i throsglwyddo i Fil newydd yw cydgrynhoi. Pan fo darpariaethau deddfwriaethol sydd wedi bodoli ers blynyddoedd lawer yn cael eu harchwilio yn ystod proses gydgrynhoi, mae'n anochel y bydd nifer o gwestiynau'n codi am eu hystyr a'u hygyrchedd, ac a ydynt yn dal i weithredu'n briodol yn y dirwedd ddeddfwriaethol bresennol. Mae hyn yn arbennig o wir lle mae datganoli wedi ymyrryd ers i'r darpariaethau gael eu deddfu'n wreiddiol.

Mae'r Pwyllgor wedi gofyn a allai Llywodraeth Cymru fod wedi dechrau gweithio ar y prosiect hwn ym mis Hydref 2015 pan benderfynodd yr ONS y dylid ailddosbarthu cymdeithasau tai Lloegr. Mae'r Pwyllgor hefyd yn awgrymu y gallem fod wedi cael cyfnod hwy i gynnal prosiect cydgrynhoi, gan ddibynnu ar sicrwydd gan y Trysorlys y gallai ymestyn y cyfnod datgymhwyso rheolaethau cyfrifyddu dros dro y tu hwnt i fis Mawrth 2018, ar yr amod ein bod wedi gwneud cynnydd digonol gyda'r newidiadau deddfwriaethol y mae'r ONS yn ystyried bod eu hangen.

Fel y dywedais yn ystod y ddadl, mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn cael eu llywodraethu gan wahanol ddeddfwriaeth a chyfundrefn reoleiddiol wahanol i gymdeithasau tai yn Lloegr, ac ni chyhoeddodd yr ONS ganlyniad ei adolygiad mewn perthynas â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig tan fis Medi 2016. Dilynwyd hynny gan broses o sefydlu gyda'r ONS yn union pa newidiadau deddfwriaethol yr oedd angen inni eu gwneud er mwyn cyflawni ailddosbarthu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

Hyd yn oed pe bai wedi bod yn dechnegol bosibl cychwyn y prosiect ym mis Hydref 2015, byddai wedi bod yn rhaid dod o hyd i adnoddau ychwanegol sylweddol mewn perthynas â pholisi, y gyfraith, drafftio a chyfieithu er mwyn ei gyflawni. Ar y pryd, roedd ein hadnoddau eisoes wedi'u hymrwymo i rannau eraill o'r rhaglen ddeddfwriaethol.

Gan roi'r adnoddau y byddai eu hangen i'r naill ochr, byddai'r cyfnod a ddechreuodd ym mis Medi 2016 yn llawer rhy fyr i ddefnyddio'r Bil hwn ar gyfer prosiect cydgrynhoi. O ran y posibilrwydd o ddarbwyllo'r Trysorlys i ymestyn y cyfnod datgymhwyso rheoliadau cyfrifyddu dros dro ar y sail ein bod yn gwneud cynnydd digonol gyda'r newidiadau deddfwriaethol i hwyluso ailddosbarthu, byddai cydgrynhoi wedi arafu'r cynnydd hwnnw'n sylweddol. Yn fy marn i, byddai wedi bod yn amhriodol cymryd y risg y byddai'r Trysorlys yn barod i roi estyniad i gwmpasu'r broses gydgrynhoi hwy.

2) *Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried yn ofalus y posibilrwydd o gydgrynhoi'r gyfraith yn y maes hwn y tro nesaf y bydd cyfle i wneud hynny.*

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn gan fod Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried cydgrynhoi cyfraith ddatganoledig Cymru, a sut y gellid symud ymlaen gyda hynny.
Fodd bynnag, fel y dywedais hefyd mewn ymateb i Argymhelliad 1, y rheswm am hyn yw y bydd angen ystyried cydgrynhoi fesul Bil unigol bob tro.

Bydd yr adnoddau sydd ar gael a sut i flaenoriaethu eu defnydd yn ffactor pwysig yn y penderfyniad ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â chydgrynhoi cyfraith benodol. Fodd bynnag, ffactor arall yw a yw diwygiadau parhaus eisoes ar y gweill mewn maes penodol, ac a fyddai'n synhwyrol aros nes bydd y diwygiadau hynny'n cael eu gweithredu'n llawn cyn dechrau cydgrynhoi deddfwriaeth.

Wrth gwrs, mae'r gyfraith ar Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn rhan o'r maes tai datganoledig llawer mwy. Mae'n faes sy'n cwmpasu swm sylweddol iawn o ddeddfwriaeth ac mae'n faes y mae Llywodraeth Cymru yn ei gydnabod fel un a fyddai'n elwa'n fawr o gydgrynhoi.

Mae'n faes lle rydym eisoes wedi gwneud newidiadau deddfwriaethol sylweddol, ac yn ceisio gwneud y gyfraith yn fwy hygyrch, er enghraifft drwy Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Deddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013. Yn ddiweddar iawn wrth gwrs, pasiodd y Cynulliad Ddeddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018.

Mae ehangder y maes tai yn golygu y byddai angen adnodd sylweddol er mwyn ymgymryd ag unrhyw broses gydgrynhoi, a bydd angen mynd i'r afael â'r mater hwnnw cyn y gallwn fwrw ymlaen â chydgrynhoi.

3) *Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant er mwyn nodi ar wyneb y Bil y bydd unrhyw benodiadau a wneir o dan adrannau 6 neu 8 yn dod i ben pan gydymffurfir â'r gofyniad perthnasol neu phan fydd y methiant perthnasol wedi'i ddatrys gan fodloni Gweinidogion Cymru.*

Nid wyf yn bwriadu cyflwyno gwelliant i fynd i'r afael â'r mater hwn gan fy mod yn pryderu y gallai arwain at nifer o anawsterau.

Gallai terfynu penodiad yn 'awtomatig' yn sgil amgylchiadau penodol arwain at ansicrwydd ynghylch pryd y bydd penodiad rhywun wedi dod i ben. Ar ben hynny, ni fyddai'n caniatáu ar gyfer cyfnod pontio lle y byddai'r swyddog yn aros yn ei swydd tra, er enghraifft, y bydd Gweinidogion Cymru yn bodloni eu hunain bod y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig bellach yn gallu gweithredu heb gymorth y swyddog.

Mae'r gyfundrefn reoleiddio bresennol yn cynnwys mesurau diogelu ac yn gweithredu mewn ffordd sy'n sicrhau na fydd swyddogion neu reolwyr a benodir gan Weinidogion Cymru i ymdrin â phroblem benodol yn aros yn eu swyddi yn hwy nag sy'n angenrheidiol.

4) *Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 13(2) o'r Bil i'w gwneud yn glir mai dim ond mewn perthynas â Chymru y mae adran 81 o Ddeddf Tai 1988 yn cael ei diddymu.*
5) *Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ceisio cadarnhad gan Lywodraeth y DU ynghylch yr amserlenni ar gyfer dileu cyfeiriadau at Loegr yn Neddf Tai 1988.*

Rwyf wedi ystyried y mater hwn yn ofalus ac rwy'n fodlon bod adran 13(2) o'r Bil, fel y mae, yn gywir.

Rwy'n gwerthfawrogi, lle mae deddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr yn cael ei diwygio gan un o Ddeddfau'r Cynulliad, bod hygyrchedd ac eglurder y ddeddfwriaeth a fydd yn parhau i fod yn gymwys yn Lloegr o'r pwys mwyaf.

Fodd bynnag, mewn perthynas ag adran 81 o Ddeddf Tai 1988, ar ôl i'r gofyniad i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gael caniatâd i waredu tir gael ei ddileu, ni fydd gan yr adran unrhyw effaith bellach mewn perthynas â Lloegr.

Mae Adran 81 yn berthnasol i warediadau tir yn unig gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, lle y mae'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig wedi caffael y tir hwnnw gan Ymddiriedolaeth Gweithredu Tai. Mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wedi'u cofrestru yng Nghymru ac mae'n rhaid iddynt fod yn ymwneud yn bennaf â thai yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw hyn yn atal Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig rhag bod yn berchen ar eiddo a rheoli eiddo yn Lloegr (ond, yn ymarferol, mae bod yn berchen ar dir a'i reoli yn Lloegr yn cyfrif am gyfran fach iawn o weithrediadau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig).

Er mwyn dileu rheolaethau'r llywodraeth ganolog i'r graddau y mae eu hangen i ailddosbarthu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, mae angen diddymu adran 81 yn ei chyfanrwydd. Mae wedi'i diddymu eisoes mewn perthynas â darparwyr cofrestredig dielw (sef y rhai sy'n cyfateb i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn Lloegr).

Bydd y diddymiad yn dileu swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol i gydsynio i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig waredu tir yr hen Ymddiriedolaeth Gweithredu Tai os yw'r tir hwnnw yn Lloegr. Nid yw diddymu swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn codi unrhyw fater ar wahân yn ymwneud ag egwyddor ac rydym yn fodlon bod ei effaith yn atodol i brif bwrpas y diddymiad, neu'n ganlyniadol, sef dileu'r gofyniad i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gael caniatâd y llywodraeth ganolog ar gyfer gwarediadau.

6) *Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant fel ei bod yn glir ar wyneb y Bil bod y diffiniad newydd o "notify" i'w fewnosod yn adran 63 o Ddeddf Tai 1996 ar ôl y diffiniad o "notice" a chyn y diffiniad o "public sector landlord".*

Rwy'n fodlon bod y ddarpariaeth sy'n mewnosod y diffiniad o "notify" yn adran 63 o Ddeddf Tai 1996 wedi'i ddrafftio yn y ffordd fwyaf priodol.

Wrth fewnosod diffiniad newydd mewn rhestr o ddiffiniadau, arfer drafftio cyffredin yw nodi y dylai'r diffiniad newydd gael ei fewnosod "yn y man priodol", yn hytrach na nodi rhwng pa ddiffiniadau presennol y dylai ymddangos. Mae hyn oherwydd ei bod yn bosibl, cyn i'r gwelliant gael ei gychwyn, y gallai darn arall o ddeddfwriaeth fewnosod diffiniad arall yn y man lle roedd y gwelliant yn bwriadu mewnosod diffiniad.

Drwy nodi bod y diffiniad newydd i'w fewnosod "yn y lle priodol", mae'n golygu y gellir ei fewnosod yn y lle cywir yn nhrefn yr wyddor ar yr adeg y caiff y mewnosodiad ei gychwyn.

7) *Rydym yn argymell y dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliant i’r Bil i orfodi Gweinidogion Cymru, o fewn 14 diwrnod ar ôl rhoi cyfarwyddyd o dan adran 5 neu 14, i sicrhau bod testun y cyfarwyddyd yn cael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ynghyd â datganiad ysgrifenedig i egluro pwrpas y cyfarwyddyd.*

Rwyf wedi ystyried y mater hwn ac rwy'n fodlon, o ystyried natur a chynnwys y cyfarwyddiadau sydd i'w rhoi o dan y darpariaethau newydd yn adrannau 5 ac 14 o'r Bil, bod y ddarpariaeth fel y saif ar hyn o bryd yn gymesur o dan yr amgylchiadau. Felly, rwyf wedi penderfynu peidio â chyflwyno gwelliant mewn perthynas â'r mater hwn.

Fodd bynnag, rwy'n fwy na pharod i ymrwymo y bydd cyfarwyddiadau a roddir o dan y darpariaethau newydd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae cwmpas y cyfarwyddiadau sydd i'w rhoi o dan y darpariaethau hyn yn gyfyngedig iawn. Bydd y cyfarwyddiadau'n ymdrin â chyflwyno, ffurf a chynnwys hysbysiadau i'w rhoi i Weinidogion Cymru, a'r terfynau amser ar gyfer gwneud hynny. Felly mae'r cyfarwyddiadau yn ymdrin â materion gweinyddol.

Mae nifer o bwerau gwneud cyfarwyddiadau eraill eisoes yn Neddf Tai 1996, ac ar draws amrywiaeth eang o ddeddfwriaeth, nad oes angen eu gosod gerbron y Cynulliad.

8) *Rydym yn argymell y dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliant i newid geiriad adran 18(1) o’r Bil i nodi y gellir gwneud, drwy reoliadau, unrhyw ddarpariaethau cysylltiedig neu ganlyniadol sydd eu hangen ym marn Gweinidogion Cymru at ddibenion unrhyw ddarpariaeth a gynhwysir yn y Bil neu unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan y Bil, mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth o’r fath, neu er mwyn rhoi effaith lawn i’r fath ddarpariaeth*.

Mae'r pŵer yn adran 18 yn un cyfyngedig iawn. Ni ellid ei ddefnyddio i wneud dim nad oes ganddo gysylltiad agos â darpariaethau'r Bil.

O ran y geiriad a argymhellir gan y Pwyllgor, rwy'n credu bod gofyniad i ddiwygiad fod yn "angenrheidiol", yn hytrach na "priodol", cyn y gellir ei wneud o dan y pŵer hwn, yn amod rhy lym. Efallai y bydd sawl ffordd o ddelio â darpariaeth benodol yr effeithir arni gan y Bil, ac mae angen i Weinidogion Cymru allu dewis y ffordd sydd fwyaf priodol i wneud y gyfraith yn glir a sicrhau ei bod yn gweithredu'n iawn.

Os na allai Gweinidogion Cymru wneud dim mwy na'r hyn sy'n hollol angenrheidiol wrth wneud diwygiadau, gallai gyfyngu ar eu gallu i wneud i'r gyfraith bresennol weithio'n effeithiol yn dilyn y newidiadau a wnaed gan y Bil.

Mewn perthynas ag argymhelliad gan y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion lunio gwelliant i nodi cwmpas y pŵer yn gliriach.

9) *Rydym yn argymell y dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliant i nodi y bydd y pwerau a ddarperir gan y ddarpariaeth hon yn dod i ben ar y dyddiad y cyhoeddir cadarnhad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn cael eu hailddosbarthu yn gorfforaethau preifat anariannol,*

Efallai y byddai'n ddefnyddiol imi gadarnhau na ellir defnyddio'r pŵer hwn i wneud diwygiadau pellach at ddibenion hwyluso ailddosbarthu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gan yr ONS. Ei ddiben yw gwneud diwygiadau sy'n codi o ganlyniad i'r newidiadau i'r gyfraith a wneir yn benodol gan y Bil.

Pe bai'r pŵer i wneud gwelliannau yn dod i ben fel yr awgrymwyd gan y Pwyllgor ac nad oedd y rheoliadau diwygio wedi'u gwneud eto, byddai ein gallu i'w gwneud yn dod i ben.

At hynny, er ein bod yn gwneud ein gorau glas i nodi'r holl ddarpariaethau y mae angen eu diwygio ac ymdrin â hwy mewn un set o reoliadau, mae'n bosibl y bydd darpariaeth yn dod i'r amlwg wedi hynny. Mae hefyd yn bosibl bod angen diwygio'r darpariaethau a wneir ar ôl y dyddiad ailddosbarthu.

Rwyf o'r farn felly y byddai pŵer i wneud diwygiadau sy'n dod i ben fel yr awgrymir gan y Pwyllgor yn rhy gyfyngol i sicrhau ein bod yn gallu diwygio'r holl ddarpariaethau a allai gael eu heffeithio gan y Bil hwn.

10) *Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i Atodlen 1 i'r Bil i ddileu'r geiriau "but the landlord may not remove an appointee until after the 2 month period expires" o adran 7C(3) i'w fewnosod i mewn i Ddeddf Tai 1996.*

Rwyf wedi derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor a byddaf yn cyflwyno gwelliant i fynd i'r afael â'r mater a godwyd gan y Pwyllgor.

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i egluro un pwynt a godwyd yn yr adroddiad ynghylch paragraff 9 yn Atodlen 2 i'r Bil a'r cysylltiad â Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018 (Deddf 2018). Mae'r dyddiad ar gyfer y diddymu terfynol bellach wedi'i bennu fel 26 Ionawr 2019 (gweler Gorchymyn Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018 (Darpariaethau Cychwyn ac Arbed) 2018). Os bydd y Bil hwn yn symud ymlaen fel y rhagwelir, dylai ddod i rym cyn y diddymiad terfynol. Felly, bydd angen i'r Bil hwn ddiwygio adran 16 Deddf Tai 1996, cyn iddi gale ei diddymu gan Ddeddf 2018 ar 26 Ionawr 2019.

Rwy'n gobeithio y bydd y llythyr hwn yn ddefnyddiol o ran amlinellu'r ymatebion i adroddiad y Pwyllgor. Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a'r Pwyllgor Cyllid ynghylch eu hadroddiadau Cyfnod 1, a byddaf yn anfon copïau o'r llythyrau at Gadeiryddion y tri Phwyllgor.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gydag Aelodau wrth i'r Bil fynd ar ei hynt drwy'r Cynulliad.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration

**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Minister for Housing and Regeneration**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA - L/RE/0066/18

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

21 Chwefror 2018

Annwyl Simon,

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid am ei waith craffu ar Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 o'r broses ddeddfwriaethol. Rwyf wedi nodi ymatebion i'r tri argymhelliad a wnaed yn adroddiad craffu Cyfnod 1 y Pwyllgor Cyllid ar Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) isod.

1) *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn llunio strategaeth sy'n amlinellu sut y bydd yn monitro perfformiad ariannol Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn lleihau'r risgiau sydd ynghlwm wrth ddadreoleiddio'r sector*

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae hyfywedd ariannol parhaus landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn hanfodol. Caiff perfformiad ariannol pob landlord cymdeithasol cofrestredig ei fonitro fel rhan o drefn reoleiddio barhaus ac mae'n sail i'r dyfarniadau rheoleiddiol blynyddol a gyhoeddir ar hyfywedd ariannol a threfniadau llywodraethu a gwasanaethau landlordiaid.

Mae risgiau pan fydd Byrddau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn penderfynu ymgymryd â gweithgareddau newydd. Yr hyn sy'n bwysig, fodd bynnag, yw sut mae Byrddau yn adnabod, yn deall, yn ystyried ac yn rheoli'r risgiau hynny. Felly, mae'r modd y caiff risgiau busnes newydd eu hadnabod, eu hasesu a'u rheoli yn rhan annatod o'r Safonau Perfformiad a chaiff hyn ei ystyried wrth wneud dyfarniadau rheoleiddiol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adolygiad o lefelau amlygiad presennol i weithgareddau busnes nad ydynt yn weithgareddau craidd (arallgyfeirio) ac yn nodi ei bwriad i fonitro blaengynlluniau dros gyfnod treigl o bum mlynedd er mwyn llywio'i barn ar lefelau amlygiad cyffredinol y sector, yn ogystal â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig unigol i sicrhau bod y risg yn briodol a rhesymol. Bydd yr adolygiad a'r strategaeth yn cael eu cyhoeddi yn y trosolwg arfaethedig o risgiau'r sector yng Ngwanwyn, 2018.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

2) *Mae’r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddyrannu adnoddau digonol i alluogi’r Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid i gyfathrebu mwy â thenantiaid i sicrhau eu bod yn ymwybodol o’r newidiadau o ganlyniad i’r Bil hwn ac yn eu deall.*

3) *Mae’r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddyrannu adnoddau digonol i gynhyrchu canllawiau ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn sicrhau dull cyson o weithredu’r drefn newydd.*

Rwy’n derbyn yr argymhellion hyn. Rwyf o’r farn ar hyn o bryd bod adnoddau digonol ar gael am y rhesymau a nodwyd yn yr Arfarniad Effaith Rheoliadol. Fodd bynnag, gallaf sicrhau’r Pwyllgor bod adnoddau yn cael eu hadolygu’n gyson gan swyddogion ac mewn cysylltiad â TPAS Cymru a’r sector Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

Rwy’n mawr obeithio bod y llythyr o gymorth wrth nodi fy ymateb i adroddiad y Pwyllgor. Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a’r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch eu hadroddiadau Cyfnod 1 ac anfonir copi o’r llythyrau at Gadeiryddion y tri Phwyllgor.

Rwy’n edrych ymlaen at barhau i weithio â’r Aelodau wrth i’r Bil fynd ar ei hynt drwy’r Cynulliad.

Yn gywir,



**Rebecca  Evans AC/AM**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

**National Assembly for Wales**
Health, Social Care and Sport Committee

**Mark Drakeford AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

22 Chwefror 2018

Annwyl Mark

Yn ystod hydref 2016, sefydlodd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon gyfres o amcanion strategol ar gyfer y Pumed Cynulliad a chytunodd i ystyried ei holl waith yng nghyd-destun yr amcanion hyn. Rwy'n ysgrifennu atoch yn eich capasiti fel Cadeirydd Grŵp Cynghori Ewropeaidd Llywodraeth Cymru ac mewn perthynas â'n pumed amcan strategol - ystyried goblygiadau'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Ym mis Tachwedd 2016, cododd y Pwyllgor y mater o ran y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd (Brexit) gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18. Ar y pryd, gwnaethom ddweud bod angen bod yn hyderus bod gwaith yn mynd rhagddo yn Llywodraeth Cymru i gynllunio ar gyfer nifer o bosibiliadau yn y dyfodol, yn enwedig mewn perthynas â meysydd allweddol megis staffio, ymchwil, rheoleiddio a chyllido. Ystyriwyd ymhellach oblygiadau Brexit yn ystod ein gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19.

Roedd ein hadroddiad i Recriwtio meddygol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017, yn edrych ar oblygiadau Brexit i recriwtio meddygol. Yn ystod ein gwaith o gasglu tystiolaeth, mynegwyd pryderon ynghylch canlyniadau posibl ac ansicr iawn Brexit ar staff ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Daethom i'r casgliad fod angen trafodaethau parhaus â Llywodraeth y DU i egluro gallu gwladolion yr Undeb Ewropeaidd i barhau i weithio yn y DU, yn ogystal â gallu gweithio fel gweithwyr proffesiynol ym maes meddygaeth yng Nghymru yn y dyfodol.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Seneddlechyd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddHealth@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol wedi cyhoeddi ei adroddiad 'Sut y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit?' yn gynharach y mis hwn. Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ataf i dynnu sylw penodol at adrannau 3.2 a 3.4 o'r adroddiad, sy'n gwneud sylwadau ar newidiadau i reolau mewnfudo a goblygiadau i iechyd ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Rydym wedi nodi cryfder y pryder a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ynghylch atal clefydau, rheoleiddio technolegau iechyd, trefniadau gofal iechyd dwyochrog, a chydweithredu ac arloesi ymchwil. Rydym hefyd wedi nodi, yn eich tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, eich bod yn dweud bod y goblygiadau i iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn cael sylw gan uwch-swyddogion ar draws Llywodraeth Cymru ac yn cael eu cydgysylltu drwy Is-bwyllgor y Cabinet a'r Grŵp Swyddogion Trawsnewid Ewropeaidd.

Trafododd yr Aelodau y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn ystod ein cyfarfod ar 14 Chwefror. Yn dilyn y drafodaeth honno, hoffwn ofyn ichi roi gwybodaeth i'r Pwyllgor hwn am sut y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau cydweithrediad parhaus gyda'r Undeb Ewropeaidd ar y materion a amlinellir uchod ac ar faterion eraill fel cydnabod cymwysterau meddygol, cynnal cysylltiadau ymchwil meddygol, a chydweithrediad parhaus ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb cyn gynted â phosibl.

Cofion cynnes



Dr Dai Lloyd AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

**Copi at:**
Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
David Rees AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

# Eitem 8

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon